Red Meat Development Programme

Safe and cost effective cattle handling

Poor handling and stress at handling affect animal welfare which can lead weight loss, bruising and dark cutting of meat. Estimates suggest that dark cutting and bruising cost the UK beef industry around £14 million/year.

HSE figures show that around 4-5 deaths occur on farms each year and that one in five farmers or workers are injured whilst handing cattle. This is often due to complacency, lone working and poor facilities. With the increase in routine health checks such as TB testing vets are also at risk from poor handling facilities.

Red Meat Development Centre Demonstration farmers Tom and Kate Coney, Narberth invested in a basic handling system costing around than £1800. According to Kate this has made a world of difference to routine health testing, treatments and regular weighing of growing stock much easier and safer, especially as the family help on the farm.

To help improve the health, safety, animal welfare and meat quality consider the following:

Improving existing systems

Before carrying out any changes take some time to watch cattle being handled in the existing system and make a note where problems, if any, are occurring. For example, having difficulty getting animals through gates, stopping half way up races and refusing to go into the crush.

Some useful and cost effective suggestions

Work with the animals' natural behaviour

- Sheet the sides of the race to prevent distractions
- Remove corners by fitting gates / sheeting across them to help improve the flow
- Improve lighting in dark sheds. Contrast can cause animals to stop
- Repair worn and damaged concrete to make a more even floor surface reducing animals instinct to stop at holes or changes in surface

A step on the outside makes it easier to move cattle and safer for the handler

Cattle health and welfare

- Make an insert to reduce the width of the race for smaller cattle
- Reposition gate hinges so that they open back against walls/barriers and fit chains to hold them open and fit effective latches

Your health and safety

- Create a cattle free working area around the race/ crush
- Reduce the width of collecting pens, cattle can escape the handler in wide pens
- Reduce points where limbs can be trapped
- Use chains to secure hurdles and gates rather than baler twine

The Red Meat DevelopmentProgramme is managed by Hybu Cig Cymru on behalf of Farming Connect

November 2008

Rhaglen Datblygu Cig Coch

Trafod gwartheg yn ddiogel a chost effeithiol

Mae trafod gwael a rhoi anifeiliaid dan straen hefyd yn cael effaith ar eu lles a gall arwain at golli pwysau, cleisio a chig sy'n para'n dywyll ar ôl ei dorri. Amcangyfrifir bod cig sy'n para'n dywyll ar ôl ei dorri a chleisio'n costio oddeutu £14 miliwn y flwyddyn i'r diwydiant cig eidion yn y DG.

Mae ffigurau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn dangos fod rhwng pedwar a phump o bobl yn cael eu lladd ar ffermydd yn flynyddol a bod un o bob pump o ffermwyr neu weithwyr yn cael eu hanafu wrth drafod gwartheg. Yn aml, y rheswm am hyn yw hunanfodlonrwydd, pobl yn gweithio ar eu pennau eu hunain a chyfleusterau gwael. Oherwydd y cynnydd mewn archwiliadau iechyd rheolaidd, megis profion TB, mae milfeddygon hefyd yn wynebu perygl oherwydd cyfleusterau trafod gwael.

Mae ffermwyr arddangos y Ganolfan Datblygu Cig Coch, Tom a Kate Coney, Arberth, wedi buddsoddi tua £1800 mewn system drafod sylfaenol. Yn ôl Kate mae hyn wedi gwneud byd o wahaniaeth wrth wneud profion iechyd rheolaidd, trin anifeiliaid a'u pwyso'n rheolaidd yn haws a diogelach, yn enwedig am fod y teulu'n helpu ar y fferm.

Er mwyn gwella iechyd, diogelwch, lles anifeiliaid ac ansawdd y cig, ystyriwch y canlynol:

Gwella systemau sy'n bodoli

Cyn gwneud unrhyw newidiadau, neilltuwch ychydig o amser i wylio gwartheg yn cael eu trafod yn y system sy'n bodoli a nodwch unrhyw broblemau. Er enghraifft, anhawster wth gael anifeiliaid drwy'r clwydi, yr anifeiliaid yn aros hanner ffordd ar hyd tramwyfeydd ac yn gwrthod mynd i mewn i'r ddalgell.

Rhai awgrymiadau defnyddiol a chost effeithiol

Gweithio gyda golwg ar ymddygiad naturiol yr anifeiliaid

- Rhown lenni ar ochrau'r dramwyfa er mwyn atal tynnu sylw'r anifeiliaid
- Osgowch gorneli trwy osod clwydi neu lenni ar eu traws er mwyn gwella'r llif
- Rhowch well golau mewn siediau tywyll. Gall newid sydyn yn y golau beri i'r anifeiliaid aros
- Atgyweiriwch goncrid sydd wedi treulio neu wedi'i ddifrodi i greu llawr mwy gwastad. Bydd anifeiliaid yn aros wrth reddf os oes tyllau neu unrhyw newid yn yr wyneb.

Gall grisiau ar y tu allan ei wneud hi'n haws i symud gwartheg ac yn fwy diogel i'r trafodwr

Iechyd a lles gwartheg

- Gosodwch rywbeth i wneud y dramwyfa'n gulach i'r gwartheg lleiaf
- Ailosodwch golfachau clwydi fel bod y clwydi'n agor yn erbyn waliau, defnyddiwch gadwyni i'w cadw ar agor a gosodwch gliciedau effeithiol.

Eich iechyd a diogelwch

- Crëwch le heb wartheg lle gallwch weithio o amgylch y dramwyfa / y ddalgell
- Gwnewch y llociau cynnull yn gulach oherwydd gall gwartheg ddianc rhag y trafodwr mewn llociau llydan
- Gwnewch yn siwr nad oes mannau a allai ddal cymalau
- Defnyddiwch gadwyni yn hytrach na chortyn i ddal clwydi yn eu lle.

Rheolir y Rhaglen Datblygu Cig Coch gan Hybu Cig Cymru ar ran Cyswllt Ffermio

Tachwedd 2008